Cyfarfod hybrid y **PWYLLGOR CYLLID A MATERION CYFFREDINOL** a gynhaliwyd nos Fercher, 7 Mehefin 2023 yn dechrau am 6.00pm.

**PRESENNOL**

Y Cynghorydd A. J. Rutherford (Cadeirydd)

Y Cyngorwyr Mrs M. A. Blakeley-Walker, Mrs J. Chamberlain-Jones, Mrs E. M. Chard, Mrs J. M. Evans, S. Feeney, A. R. James, K. R. Jones, Mrs D. L. King, Ms J. L. McAlpine, Mrs W. M. Mullen-James, P. Prendergast, D. Simmons, A. Walker a Miss C. L. Williams.

Mr G. J. Nickels – Clerc y Dref
Miss H. J. Windus – Dirprwy Glerc y Dref

## 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr M. Blackwell, Mrs J. Butterfield YH MBE, B. Mellor, Miss S. L. Roberts a Ms V. Roberts.

## 2. DATGAN SEDD WAG CYNGHORYDD CYMUNED YN WARD CEFNDY, Y RHYL

Gwnaeth Clerc y Dref ddatganiad ffurfiol sedd wag Cynghorydd Cymuned Ward Cefndy, Y Rhyl, yn dilyn ymddeoliad Mrs Pat Jones fel cynghorydd tref.

Cynghorodd Clerc y Dref fod gan 10 etholwr o ward Cefndy tan 27 Mehefin 2023 i gyflwyno cais ysgrifenedig i Swyddog Monitro Cyngor Sir Ddinbych i gynnal etholiad i lenwi'r sedd wag.

Wedi gwneud hynny bydd y Cyngor Sir yn dechrau'r broses o gynnal etholiad.

## 3. ADRODDIAD TALIADAU A DERBYNIADAU (ATODLEN A) – MIS MAI 2023

Cyfeiriodd y Cadeirydd at adroddiad Clerc y Dref (a ddosbarthwyd gyda'r agenda) yn rhoi manylion y taliadau a wnaed a'r incwm a dderbyniwyd.

| Taleb rhif: | Enw'r cyflenwr | Swm | Disgrifiad y nwyddau / gwasanaethau |
|---|---|---:|---|
| 1526 | Tesco | 3.00 | Yswiriant ffôn symudol HW |
| 1622 | HSBC | 22.00 | Ffioedd bancio<br>17 Mawrth – 16 Ebrill 2023 |
| 1526 | Tesco | 2.94 | Ffioedd ffôn symudol |
| 1630 | Cyngor Sir Ddinbych | 32,037.00 | Benthyciad SC2 23/24 – taliad 1 o 3 |
| 1627 | Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi | 2,983.10 | Didyniadau Talu wrth Ennill mis Ebrill 2023 |
| 1628 | Cronfa Bensiwn Clwyd | 4,737.10 | Didyniadau pensiwn a chyllido'r diffyg mis Ebrill 2023 |
| 1629 | Staff Cyngor Tref y Rhyl | 7,861.50 | Tâl net mis Mai 2023 |
| 1617 | Cyngor Sir Ddinbych | 753.00 | Ardrethi Annomestig Cenedlaethol Swyddfeydd Dinesig 2023/24 – taliad 2 o 10 |
| 1539 | Tesco | 3.00 | Yswiriant ffôn symudol GN |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Cyfanswm y taliadau | **48,402.64** | |

| Categori | Disgrifiad | Swm |
|---|---|---|
| Santander | Llog ar y Cyfrif Hysbysiad 31 diwrnod | 244.52 |
| HSBC | Llog ar y cyfrif adneuo 7 diwrnod | 26.86 |
| HSBC | Llog ar y cyfrif adneuo 7 diwrnod | 26.86 |
| HSBC | Llog ar y cyfrif adneuo 7 diwrnod | 26.86 |
| HSBC | Llog ar y cyfrif adneuo 7 diwrnod | 26.86 |
| Amrywiol | Tocynnau i Ddigwyddiad Elusennol y Maer | 70.00 |
| | **Cyfanswm incwm** | **£421.96** |

***PENDERFYNWYD*** *derbyn a chymeradwyo'r adroddiad.*

## 4. AWDURDODI TALIADAU / YCHWANEGIADAU AT Y RHESTR CYFLENWYR CYMERADWY (ATODLEN B)

Ymhellach i gofnod rhif 143 cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 15 Mawrth 2017, ac yn unol â rheoliadau ariannol mabwysiedig y cyngor, cyfeiriodd y Cadeirydd at Atodlen B a gyflwynwyd gan Glerc y Dref (rhestr o daliadau nad ydynt yn rhai rheolaidd i'w rhyddhau dros y mis nesaf) (dosbarthwyd gyda'r agenda).

| Taleb rhif: | Cyflenwr | Manylion | Swm £ |
|---|---|---|---|
| 1631 | Canolfan Fenywod Gogledd Cymru | Dosbarthu casgliad elusennol y Maer 22/23 | 1,126.08 |
| 1632 | RNLI | Dosbarthu casgliad elusennol y Maer 22/23 | 563.04 |
| 1633 | Cymdeithas Alzheimer | Dosbarthu casgliad elusennol y Maer 22/23 | 563.04 |
| 1634 | Gwasanaethau Hamdden Sir Ddinbych | Lleoliad ac arlwyo yn nigwyddiad elusennol y Maer ar 30/3/23 yn 1891 | 1,897.50 |
| 1635 | The Little Flower Monger | Blodau i Gynghorydd | 40.00 |
| 1636 | Canda Copying | Rhentu'r llungopïwr | 259.32 |
| 1637 | Canda Copying | Ffioedd llungopïo | 232.20 |
| 1638 | Morrisons | Blodau a gwin i'r Cyfarfod Blynyddol | 91.00 |
| 1639 | Morrisons | Blodau i Gynghorydd | 15.00 |
| 1640 | Y Cynghorydd D. L. King | Treuliau'r Maer mis Ebrill/Mai 2023 | 20.00 |
| 1641 | JDH Business Services Ltd | Archwiliad Mewnol 22/23 terfynol | 423.00 |
| 1642 | James Hallam Ltd | Adnewyddu yswiriant cyfunol masnachol 2023 | 5,126.59 |
| 1643 | James Hallam Ltd | Adnewyddu yswiriant damwain bersonol a theithio 2023 | 437.69 |
| 1644 | James Hallam Ltd | Adnewyddu yswiriant peirianneg 2023 | 435.63 |
| 1645 | Gwasanaethau Hamdden Sir Ddinbych | Llogi ystafell ac arlwyo ar gyfer noson sefydlu'r Maer | 1,592.85 |
| | **Cyfanswm Atodlen B** | | **£12,822.94** |

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r taliadau yn yr atodlen a'u llofnodi gan ddau gynghorydd.*

## 5. PANEL ANNIBYNNOL CYMRU AR GYDNABYDDIAETH ARIANNOL – LWFANSAU AELODAU 2023/24

Cyfeiriodd Clerc y Dref at ei adroddiad (a ddosbarthwyd gyda'r agenda) yn ymwneud â pholisi'r cyngor tref i dalu lwfansau yn unol â phenderfyniadau Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol.

Cynghorodd Clerc y Dref fod y Panel wedi gwneud newidiadau i'w argymhellion o ran y Lwfans Treuliau sydd ar gael i aelodau, sef bod y taliad mandadol wedi'i gynyddu o £150 i £156.

Manteisiodd Clerc y Dref ar y cyfle i atgoffa'r aelodau fod rhaid iddynt adael iddo wybod, yn ysgrifenedig, os nad ydynt yn dymuno derbyn y swm neu os nad ydynt yn gymwys i'w dderbyn (gweler Atodiadau 3, 4 a 5).

Yr ail newid oedd y cyflwynwyd Lwfans Nwyddau Traul newydd mandadol i ad-dalu aelodau am y nwyddau traul a ddefnyddir i gyflawni eu dyletswyddau, gwerth £52 neu i ad-dalu gwir gostau a dalwyd gan aelodau.

Barn Clerc y Dref oedd mai'r taliad penodol o £52 fyddai'r dewis hawsaf ac eto atgoffodd yr aelodau i lenwi'r Atodiadau perthnasol.

***PENDERFYNWYD*** *fod yr aelodau'r cymeradwyo'r taliad penodol £52 a pholisi diwygiedig arfaethedig y Cyngor Tref fel y dangoswyd yn Atodiad 2.*

## 6. CYLCH GWAITH PWYLLGORAU AC IS-BWYLLGORAU

Cyfeiriodd Clerc y Dref at ei adroddiad (a ddosbarthwyd gyda'r agenda) yn gofyn am gadarnhau Pwyllgorau ac Is-bwyllgorau'r Cyngor a'u cylchoedd gorchwyl.

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r adroddiad.*

## 7. PENODI CYNRYCHIOLWYR AR SEFYDLIADAU ALLANOL

Hysbysodd y Cadeirydd am seddi gwag ar Grŵp Cynghori Rheoli Pwll Cae Brics, Grŵp Rhanddeiliaid Adolygu Gwasanaethau Cyngor Sir Ddinbych (Hafan Deg) a Phartneriaeth Cyrchfan Sir Ddinbych a gofynnodd i'r aelodau ystyried penodi i bob un o'r cyrff hyn.

Cynghorodd y Clerc beidio â phenodi i Grŵp Hafan Deg gan nad oedd wedi cyfarfod yn ystod y pedair blynedd ddiwethaf.

***PENDERFYNWYD*** *penodi'r Cynghorydd Miss C. L. Williams i Grŵp Cynghori Rheoli Pwll Cae Brics, peidio â gwneud penodiad i Grŵp Hafan Deg a phenodi'r Cynghorydd Mrs E. M. Chard i Bartneriaeth Cyrchfan Sir Ddinbych.*

## 8. PENODI LLYWODRAETHWR YSGOL CYMUNEDOL YCHWANEGOL

Ymhellach i gofnod rhif 5 Cyfarfod Blynyddol y Cyngor, gofynnodd y Cadeirydd i'r aelodau ystyried penodi Llywodraethwr Ysgol Cymunedol Ychwanegol i gorff llywodraethu Ysgol Emmanuel.

***PENDERFYNWYD*** *penodi'r Cynghorydd S. Feeney.*

## 9. <u>CYFRIFON ARIANNOL 2022/23 – ALLDRO A CHRONFEYDD WRTH GEFN DARPARIAETHOL 2022/23</u>

Cyfeiriodd Clerc y Dref at ei adroddiad ar y cyd gyda'r Swyddog Cyllid (a ddosbarthwyd gyda'r agenda) i'r aelodau ei ystyried ac i dderbyn yr adroddiad ac amrywiadau allweddol a nodi'r gwarged a ragfynegir o £27,112.

Aeth Clerc y Dref trwy'r trosglwyddiadau arfaethedig i ac o gronfeydd penodol yn gryno a ***<u>PHENDERFYNWYD</u>*** *ar £53,000 i Gronfa Prosiectau'r Maer, £7,000 i'r Gronfa Etholiadau a £25,000 o'r Gronfa Etholiadau, £4,120 o'r Gronfa Loteri Genedlaethol (Y Rhyl yn darllen) a £11,000 o Gronfa Canolfan Gymuned Tŷ Newydd.*

## 10. <u>DATGANIAD BLYNYDDOL 2021/22 – CASGLIAD YR ARCHWILIAD</u>

Adroddodd y Cadeirydd y derbyniwyd adroddiad yr Archwilydd Allanol (a ddosbarthwyd gyda'r agenda) i'r aelodau ei ystyried a chymeradwyo Datganiad Blynyddol 2021/22, a oedd chwe mis yn hwyr oherwydd oedi gan Swyddfa Archwilio Cymru.

***<u>PENDERFYNWYD</u>*** *derbyn yr adroddiad a chymeradwyo Datganiad Blynyddol 2021/22.*

## 11. <u>DATGANIADAU ARIANNOL BLYNYDDOL 2021/22</u>

Cyfeiriodd y Cadeirydd at adroddiad ar y cyd Clerc y Dref a'r Swyddog Cyllid a Datganiadau Ariannol 2021/22 (a ddosbarthwyd gyda'r agenda) i'r aelodau eu cymeradwyo.

***<u>PENDERFYNWYD</u>*** *derbyn yr adroddiad a chymeradwywyd y Datganiadau Ariannol.*

## 12. <u>YMGYNGHORIAD: CYNGOR SIR DDINBYCH – PREMIYMAU'R DRETH GYNGOR AR GARTREFI GWAG TYMOR HIR AC AIL GARTREFI</u>

Hysbysodd y Cadeirydd am dderbyn yr ymgynghoriad uchod (a ddosbarthwyd gyda'r agenda) a gofynnodd i'r aelodau a oeddynt am gyflwyno eu hymatebion unigol eu hunain neu ymateb yn gorfforaethol fel y Cyngor Tref?

***<u>PENDERFYNWYD</u>*** *y byddai'r aelodau yn cyflwyno eu hymatebion unigol eu hunain.*

***[Datganodd y Cynghorydd Mrs W. M. Mullen-James fuddiant personol yn yr eitem uchod oherwydd ei rôl fel aelod Cabinet Cyngor Sir Ddinbych]***

## 13. <u>YMGYNGHORIAD: CYNGOR SIR DDINBYCH – SAFLEOEDD YMGEISIOL CYNLLUN DATBLYGU LLEOL NEWYDD SIR DDINBYCH</u>

Adroddodd Clerc y Dref y derbyniwyd yr ymgynghoriad uchod a mapiau'r safleoedd ymgeisiol (a ddosbarthwyd gyda'r agenda) a gofynnodd i'r aelodau ystyried penodi dau aelod i fynd i'r sesiwn rhannu gwybodaeth agosaf yng Nghanolfan Gymuned Gallt Melyd, 10 Ffordd Talargoch, rhwng 5pm a 7pm nos Iau, 6 Gorffennaf.

Cynghorodd Clerc y Dref fod y safleoedd wedi'u cynnig gan dirfeddiannwyr lleol a datblygwyr i'w hystyried ar y cam hwn.

Ychwanegodd aelodau y gallai holl Gynghorwyr Sir Ddinbych fynd i unrhyw un o'r tair sesiwn.

Cynghorwyd yr aelodau i hysbysu'r aelodau penodedig am eu pryderon a'u cwestiynau, fel y gellir gwneud yr holl sylwadau.

***PENDERFYNWYD*** *penodi'r Cynghorydd A. Walker i fynd i'r sesiwn yng Ngallt Melyd ac y byddai'r Cynghorydd Mrs J. Chamberlain-Jones ofyn i'w chyd Gynghorydd Ward, y Cynghorydd Miss S. L. Roberts, a yw hi'n medru mynd a bydd yn hysbysu Clerc y Dref. Os nad yw'r Cynghorydd Roberts yn medru mynd yna ystyrir penodi ail gynrychiolydd yng nghyfarfod y Cyngor ar 21 Mehefin.*

***PENDERFYNWYD*** *ymhellach wahodd swyddog Cynllun Datblygu Lleol o Gyngor Sir Ddinbych i gyfarfod y Cyngor yn y dyfodol i roi trosolwg o'r broses llunio Cynllun Datblygu Lleol.*

## 14. EITHRIO'R WASG A'R CYHOEDD

***PENDERFYNWYD*** *eithrio'r Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod ystyried yr eitemau busnes a ganlyn yn unol ag Adran 1(2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Mynediad i Gyfarfodydd) 1960, ar sail cyfrinachedd.*

## 15. COFNODION CYFRINACHOL

Cyflwynwyd y cofnodion a ganlyn (a ddosbarthwyd gyda'r agenda) er gwybodaeth i'r aelodau a chymeradwyo'r argymhellion ynddynt:

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Is-bwyllgor Digwyddiadau Dinesig a Chymdeithasol | - | 3 Mai 2023 | - | Cofnodion rhifau 1-7 |

***PENDERFYNWYD*** *derbyn a chymeradwyo'r cofnodion.*

## 16. ADNEWYDDU YSWIRIANT 2023/24

Ymhellach i gofnod rhif 168 cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 19 Ebrill 2023, cyfeiriodd Clerc y Dref at yr adroddiad cyfrinachol ar y cyd ganddo a'r Swyddog Cyllid (a ddosbarthwyd gyda'r agenda) fel y'i cyflwynwyd i ac a gymeradwywyd gan yr Is-bwyllgor Asesu Risgiau ar 29 Mai 2023 i'r aelodau ei gymeradwyo.

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r adroddiad.*

## 17. EITEM YCHWANEGOL: Y CYN-GYNGHORYDD MRS PAT JONES

Adroddodd Clerc y Dref fod nifer o aelodau wedi awgrymu enwebu Mrs Pat Jones i fod yn Rhyddfreiniwr y Rhyl, ac mai'r drefn arferol yw derbyn enwebiadau yng nghyfarfod y Cyngor ym mis Rhagfyr.

Ychwanegodd Clerc y Dref fod aelodau wedi gofyn a ellid ystyried yr enwebiad mewn pryd i gyflwyno'r anrhydedd i Mrs Jones yn y swper preifat a drefnwyd ar ei chyfer i'w gynnal ddiwedd y mis.

Felly gofynnodd Clerc y Dref a oedd unrhyw aelod yn gwrthwynebu i'r cais i osod polisi'r cyngor tref o'r neilltu ar yr achlysur hwn a rhoi'r enwebiad ar gwrs carlam – byddai'n ofynnol cynnal Cyfarfod Arbennig y Cyngor i'w ystyried.

***PENDERFYNWYD*** *y byddai Clerc y Dref yn trefnu Cyfarfod Arbennig y Cyngor yn union ar ôl cyfarfod y Cyngor i'w gynnal ar 21 Mehefin i gadarnhau'r enwebiad yn ffurfiol.*

**18. DIWEDD Y CYFARFOD**

Gan nad oedd rhagor o eitemau busnes i'w trafod cyhoeddodd y Cadeirydd bod y cyfarfod wedi diweddu.

Cadeirydd: ………………………

Dyddiad: ………………………